# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **8 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lynda James | Adran Etholiadol: | Pennard |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

**Materion etholaeth cyffredinol -** Ymdriniais â nifer o broblemau megis tyllau yn yr heol, llyncdyllau, casgliadau sbwriel a llifogydd etc. Roeddwn yn darparu cyngor a chefnogaeth ar nifer o faterion unigol ac yn trosglwyddo cyfeiriadau ar amrywiaeth eang o bynciau. Rwyf bob amser ar gael gartref, dros y ffôn neu drwy e-bost, a byddaf yn ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi os yw'n fwy cyfleus iddynt.

**Cymorthfeydd misol –** Cynhaliais gymorthfeydd bob mis yn Llyfrgell Pennard a Marchnad Cynnyrch Pennard. (Y dyddiadau ac amseroedd erbyn hyn yw ail ddydd Sadwrn a dydd Sul pob mis rhwng 10.30am a 12.00pm).

**Cyfarfodydd PACT –** Rwy'n mynd i'r cyfarfod PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) a drefnir gan Warchod Cymdogaeth Pennard â'r swyddog heddlu a PSO lleol, yn ogystal â chyfarfodydd arferol Gwarchod Cymdogaeth Pennard a Kittle. Mae'r cyfarfodydd PACT hyn wedi cynnwys materion penodol megis y gwasanaethau bws lleol, gyrru'n rhy gyflym, gwartheg crwydr y gwahoddwyd y bobl berthnasol iddynt.

**Cylchlythyrau –** Rwyf wedi llunio e-gylchlythyrau rheolaidd i'r holl breswylwyr sy'n cynnwys pynciau sy'n berthnasol i Ward Pennard ac yr wy'n credu y byddent o ddiddordeb.

**Cynllunio –** Adolygais yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer y ward ac ymwelais â'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Roeddwn yn galw ceisiadau dadleuol i'w clywed gan y pwyllgor ac roeddwn yn cysylltu â swyddogion gorfodi pan ystyriwyd bod angen.

**Cyngor Cymuned Pennard -** Euthum i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor cymuned a chyflwynais faterion a gododd yn y fforwm. Fel aelod o'r cyngor cymuned, rwyf wedi cymryd rhan arweiniol mewn llawer o'r prosiectau cymunedol megis ailadeiladu pafiliwn y maes chwarae.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 / 8 | 88% |
| Pwyllgor Archwilio | 10 / 10 | 100% |
| Y Cyngor | 15 / 17 | 88% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| **CYFFREDINOL** | **38 / 42** | **90%** |

Hefyd, gweler presenoldeb mewn cyfarfodydd craffu yn Adran 3 isod.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Aelod o'r grwpiau craffu canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 3 / 3 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref | 6 / 7 | 86% |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 12 / 15 | 80% |
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Cynllunio | 2 / 2 | 100% |
| Llywodraethu Ysgol (cyn ymchwiliad) | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Tai Fforddiadwy | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus | 1 / 1 | 100% |
| **CYFFREDINOL** | **26 / 30** | **87%** |

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Llyfrgell Pennard -** Trefnais gyfarfodydd i frwydro yn erbyn cau Llyfrgell Pennard a chadw'r gwasanaeth ardderchog a arweinir gan lyfrgellydd. Gweithiais gyda Chyfeillion Llyfrgell Pennard i gael arian i ailadeiladu adeiladau presennol y llyfrgell a'u dylunio i'w gwneud yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a chaffael prydles ar gyfer y tir gan Gyngor Abertawe.

**Materion cyhoeddus eraill -** Trefnais gyfarfodydd cyhoeddus amrywiol: **1**. â Chyngor Cymuned Pennard i godi proffil y Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod yn berthnasol i Bennard. **2**. â Chownteri Swyddfa'r Post i drafod y newidiadau i swyddfa bost y pentref. **3**. i drafod y newidiadau arfaethedig i lywodraeth leol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
09/12/2014 - Difenwi
25/11/2014 - Y ffordd orau o ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad
31/10/2014 - Diogelu
14/08/2014 - Manteisio i'r eithaf ar eich tabled/ffôn clyfar
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Hyffordiant Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Pleidleisiais ar yr holl faterion mewn cydbwysedd ag anghenion etholwyr Pennard yn benodol ac Abertawe'n gyffredinol. Llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Pennard ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt. Aelod o Gyngor Cymuned Pennard; Cymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Pennard; Ymddiriedolwr Elusen Gymunedol Pennard; Aelod o Gyfeillion Llyfrgell Pennard; Pwyllgor Neuadd Blwyf Pennard a Phwyllgor Carnifal Pennard.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol - £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 19.05.15 |